Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 19 Mehefin 2017 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer). Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Geraint Woolford, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Rosie Hughes.

37. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer Sarjant Jonny Hill i'r cyfarfod, a roddodd gyflwyniad ar y ffigurau troseddau diweddaraf o ran y pedair mis diwethaf yn Rhuthun, wedi'u cymharu â'r un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf. Gwahoddodd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch lefelau staffio cadarnhaodd Sarjant Hill bod tri Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi'u seilio yng Ngorsaf Heddlu Rhuthun, yn gweithio tan 10 o'r gloch y nos, a bod swyddog heddlu ar ddyletswydd yn Rhuthun bob nos, gyda dau swyddog ar ddyletswydd weithiau. Cyfeiriodd aelod at ddigwyddiadau terfysgol diweddar ac anogodd Sarjant Hill bawb i barhau i fod yn wyliadwrus – y neges allweddol yw 'bod yn wyliadwrus ond peidio â brawychu.'

38. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau buddiannau fel a ganlyn:
Eitem 11 – Cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Efeillio Rhuthun – Cynghorydd Emrys Wynne fel Cadeirydd Cymdeithas Efeillio Rhuthun
Eitem 20 – Cais am gymorth ariannol gan Glwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych – y Cynghorwyr Geraint Woolford ac Emrys Wynne, diddordeb personol fel teidiau aelodau'r clwb.

39. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

23.05 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
25.05 Cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun
26.05 Agor ffair grefftau'r Inner Wheel yng Nghanolfan Awelon
30.05 Gwasanaeth angladd Murray Bragg
01.06 Cyflwyno tystysgrifau gwirfoddoli ieuenctid gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn Ruthin School
02.06 Taith efeillio i Briec de L'Odet
07.06 Dathlu pen-blwydd yn 100 oed un o drigolion Plas Gwyn a chyfarfod pwyllgor Gŵyl Rhuthun
08.06 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun
09.06 Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Ysbyty Rhuthun yng Nghanolfan Awelon
12.06 Cyfarfod gyda Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ddinbych
13.06 Cyfarfod Blynyddol Tîm y Dref yn Nantclwyd y Dre
14.06 Cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref, Dinbych, i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020
15.06 Cyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun a noson bingo i godi arian ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned Rhuthun

40. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Diwrnod cyflwyno gwobrau Ruthin School, Ffair Haf Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, digwyddiad Tîm y Dref a Chyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Ffair grefftau'r Inner Wheel, noson hystings yr Etholiad Cyffredinol a Grŵp Llywio Rhuthun.

Cyng. Stephen Beach	Ffair grefftau'r Inner Wheel, noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, Cyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, Fforwm dros 50 oed a digwyddiad Tîm y Dref.
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth angladd Murray Bragg, noson hystings yr Etholiad Cyffredinol a'r daith efeillio i Briec.
Cyng. Robert Owen-Ellis	3 x sesiwn banc bwyd a noson hystings yr Etholiad Cyffredinol.
Cyng. Menna Jones	Noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, diwrnod cyflwyno gwobrau Ruthin School, Ffair Haf a Chyfarfod Blynyddol Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, digwyddiad Tîm y Dref a'r cyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun, noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, Cyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, Fforwm dros 50 oed a digwyddiad Tîm y Dref.
Cyng. Dave Snape	Noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, digwyddiad Tîm y Dref a noson codi arian i elusen yn y Manorhaus.
Cyng. Heather Williams	Noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, diwrnod cyflwyno gwobrau Ruthin School a digwyddiad Tîm y Dref.
Cyng. Geraint Woolford	Cyfarfod Pwyllgor Sioe Flodau Rhuthun a digwyddiad Tîm y Dref.
Cyng. Ifan Wyn	Noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a'r cyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020.
Cyng. Emrys Wynne	Gwasanaeth angladd Murray Bragg, noson hystings yr Etholiad Cyffredinol, digwyddiad Tîm y Dref a'r cyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020.

41. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2017 yn gofnodion cywir.*

42. MATERION YN CODI

Darllenodd y Clerc lythyr o ddiolch oddi wrth Fenter Iaith Sir Ddinbych am y cymorth ariannol o £1,000.00 gan Gyngor Tref Rhuthun a darllenodd y Maer lythyr o ddiolch oddi wrth Gymdeithas Sgowtiaid Dyffryn Clwyd am ddod i'w Cyfarfod Blynyddol.

43. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

44. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

45. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN, PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

Derbyniodd yr aelodau gopïau o'r uchod. Roedd angen gwneud newid i ychwanegu enw'r Cynghorydd Heather Williams at gynrychiolwyr Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon a thynnu ei henw oddi ar Bwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose ac ychwanegu enw'r Cynghorydd Ifan Wyn. Awgrymwyd casglu gwybod ynghylch pa mor aml mae'r cyrff allanol yn cyfarfod, a ydynt yn gyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos yn arferol ac ati, er mwyn cynorthwyo aelodau wrth gynnig eu henwau fel bod cyfarfodydd yn cyd-fynd â'u hymrwymiadau eraill.
PENDERFYNWYD*: gwneud y newidiadau gofynnol a dosbarthu'r manylion.*

46. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Ystyriodd yr aelodau gais am gymorth ariannol £500.00 gan Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r ymateb gan Glwb Gymnasteg Dinbych a Rhuthun o ran y cais am ragor o wybodaeth yng nghyswllt eu cais am gymorth ariannol. Yn dilyn trafodaeth fanwl

PENDERFYNWYD*: rhoi cymorth ariannol o £500.00 i Gymdeithas Efeillio Rhuthun a pheidio â rhoi cymorth ariannol i Glwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych.*

47. LLYTHYR GAN DDISGYBL YSGOL STRYD Y RHOS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr oddi wrth Jessica Atherton, 7 oed, yn gofyn i Gyngor Tref Rhuthun brynu'r cabinet ar gyfer diffibrilydd mynediad awtomatig yn yr ysgol. Cyfeiriodd yr aelodau at fynediad i safle'r ysgol y tu allan i oriau ysgol, ac y byddai'r ysgol yn symud i leoliad newydd yng Nglasdir yn fuan.

PENDERFYNWYD*: trefnu apwyntiad gyda'r ysgol fel y gall y Maer gael trafodaeth gyda'r disgyblion.*

48. RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad ynghylch astudiaeth Rhuthun – Tref Farchnad y Dyfodol a oedd wedi ei seilio ar ymgynghori gyda'r gymuned, yn cynnwys ysgolion, grwpiau cymunedau a'r cyhoedd, ac a oedd yn sylfaen ar gyfer y Cynlluniau Bro presennol. Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys prosiectau a gwelliannau arfaethedig, megis cael gwared ar y gylchfan ar Sgwâr Sant Pedr a gwelliannau i'r fynedfa i Gae Ddôl. Nid oedd y ddogfen ddrafft wedi'i chyhoeddi'n ffurfiol oherwydd aros am y testun Cymraeg er mwyn cyhoeddi'r ddogfen yn ddwyieithog. Awgrymodd baratoi atodiad fel diweddariad 'y sefyllfa bresennol'.

PENDERFYNWYD*: rhannu'r dolennau i'r ddogfen cyn y cyfarfod nesaf.*

49. DIWEDDARIAD YNGHYLCH ADEILAD BANC NATWEST

Adroddodd y Maer y cafwyd cyfarfod gyda Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ddinbych, a gadarnhaodd bod gan y Cyngor Tref y pŵer cyfreithiol i brynu adeilad yr Hen Lysdy dan Adran 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Hefyd hysbysodd yr aelodau y byddai cyfarfod gyda Swyddogion Cyllid Cyngor Sir Ddinbych ddydd Iau i ystyried y dewisiadau ariannu. Awgrymwyd ffurfio gweithgor o bum aelod i weithio ar y camau nesaf a llunio achos busnes ar gyfer caffael yr adeilad fel adeilad dinesig.

PENDERFYNWYD*: y byddai'r Maer, y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Gavin Harris, Anne Roberts a Heather Williams yn ffurfio gweithgor i symud ymlaen gyda hyn ac i gyfarfod gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod gyda'r Swyddogion Cyllid.*

50. DIWEDDARIAD YNGHYLCH BATHODYNNAU ADNABOD I GYNGHORWYR

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth ynghylch costau potensial bathodynnau adnabod a rhubanau i'r Cynghorwyr Tref. Awgrymwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i holi sut maent yn cynhyrchu eu bathodynnau adnabod.

PENDERFYNWYD*: cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch eu bathodynnau adnabod.*

51. COD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG

Gofynnodd y Clerc i'r aelodau gadarnhau eu penderfyniad i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Mai 2016, gan nad oedd y penderfyniad wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig.*

52. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2017.*

53. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5045	JDH Business Services Ltd	Ffi archwiliad mewnol 2016/17	*	£322.80
5046	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Adnewyddu aelodaeth gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych		£30.00
5047	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cymorth ariannol		£500.00
5048	Ruthin Festival Committee	Cymorth ariannol		£1,000.00
5049	Menter Iaith Sir Ddinbych	Cymorth ariannol		£1,000.00
5050	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cymorth ariannol tuag at Ddrysau Agored 2017		£1,500.00
5051	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mehefin		£513.00
5052	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod y basgedi crog yn Rhuthun	*	£432.00
5053	IT Williams Company Ltd	Cludo'r planhigion ar gyfer y basgedi crog	*	£627.00
5054	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£6.25
5055	Sandra Williams	100 o stampiau ail ddosbarth		£56.00
5056	Cyngor Sir Ddinbych	Gwagu'r biniau baw ci yn fisol, Ebrill 2017 – Mawrth 2018	*	£468.00
5057	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£274.90
5058	Cynghorydd Jim Bryan	Blodau pen-blwydd yn 100 oed		£20.00
5059	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5060	Viking Direct	10 pecyn o bapur gwyn	*	£41.88
5061	TTS	Eitemau ar gyfer Cylch Meithrin Rhuthun	*	£213.38

54. DYDDIAD CYFARFOD IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Gofynnwyd i'r aelodau awgrymu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor uchod.

PENDERFYNWYD*: cyfarfod nos Iau, 6 Gorffennaf 2017, am 7pm.*

55. GOHEBIAETH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr ohebiaeth isod:

i. Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru am 4.30pm, ddydd Llun, 26 Mehefin 2017, yng Nghanolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndwr, Wrecsam.

PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Heather Williams ac Emrys Wynne yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yng Nghyfarfod Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru.*

56. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun,* ***17 Gorffennaf 2017*** *am 7.00pm.*